
# Brechlynnau:
## Cyflwyniad








### Beth yw brechlyn?


Mae brechlyn yn math o feddyginiaeth sy'n dysgu'ch system imiwnedd i adnabod rhai germau, ac a roddir i atal yr unigolyn rhag bod yn sâl! Fel hyn, os yw'ch corff yn gweld y germ go iawn, gall eich system imiwnedd ei ymladd ar unwaith!







### Sut mae nhw'n gweithio?

Mae brechlynnau'n cynnwys darnau marw neu darnau bach o'r germ rydych chi am gael eich brechu yn eu herbyn. Trwy rhoi'r ffurf ddiniwed hon o'r germ i chi, gall eich system imiwnedd baratoi ar gyfer y peth go iawn! Gall rhai brechlynnau sbarduno cynhyrch gwrthgyrff, moleciwlau a all glynu at y germ a'i fflagio i'r corff l'w ddinistrio! Mae brechlynnau eraill yn hanfon signal i'r celled T, chwaraewyr allweddol y system imiwnedd sy'n medru adnabod y germ go iawn yn gyflum a lladd y celloedd heintiedig!




### Pam mae nhw yn bwysig?

Mae brechu yn eich atal rhag mynd yn sâl o afiechydon cas! Nid yn unig y mae hwn yn wych i chi, ond mae'n eich atal chi rhag drosglwyddo y salwch i bobl sy'n agored i niwed fel yr henoed a pobl sy'n sâl yn barod!





### Ydyn nhw'n fy amddiffyn am oes?

Mae'n dibynnu ar y brechlyn. Mae angen rhoi rhai brechlynnau bob blwyddyn (fel y brechlyn ffliw) oherwydd bod y firws yn newid, felly nad yw'r brechlyn hwn yn effeithol mwyach! Dim ond unwaith y mae angen brechlynnau eraill, fel y brechlyn HPV!

Lucy Chapman, gyda chefnogaeth gan grŵp Humphreys
Cyfieithwyd gan Dawn Roberts CSci
Wedi'i ariannu gan yr Ymddiriedolaeth Wellcome.
https://www.cardiff.ac.uk/medicine
https://www.cardiff.ac.uk/people/view/78789-humphreys-ian






Font pennawd 'Sweet purple' DaFont

# Brechlynnau


## Brechlynnau DNA/RNA





Mae'r brechlyn hwn yn gweithio trwy fewnosod cod neu lasbrint firysau neu facteria (a elwir DNA neu RNA) yn ein celloed ein hunain. Mae's cod hwn yn dweud wrth ein celloedd i wneud darnau bach or germ, o'r enw antigen! Bydd ein system imiwnedd yn gweld yr antigen hwn a'i chofio rhag ofn i ni gael ei hentio gyda'r germ go iawn!

## Brechlynnau gwanhau byw

Mae'r brechlyn hwn yn cynnwys firws/facteria cyfan a all ddal i fynd i mewn i'n celloedd, ond mae wedi'i wanhau ac mae nawr yn ddiniwed! Enghreifftiau o'r math hwn yw'r brechlynnay MMR a brech yr iâr!




## Fector-seiliedig




Mae hwn yn defnyddio firws diogel, dealladwy iawn fel ffordd o gario darn o firws/facteria niweidiol o'r enw antigen! Dim ond yr antigen fydd y system imiwnedd yn gweld fel peryglus!

## Germau anactif a brechlynnau protein

Mae gan hwn nail ai firws/facteria 'cyfan' sydd wedi can ei ladd, neu darnau bach or germ fel proteinau neu siwgrau! Nid yw'r nail na'r llall yn medru achosi afiechyd. Ymhlith yr enghreifftiau mae hepatitis A, y ffliw a llid yr ymennydd B!



Lucy Chapman, gyda chefnogaeth gan grŵp Humphreys
Cyfieithwyd gan Dawn Roberts CSci
Wedi'i ariannu gan yr Ymddiriedolaeth Wellcome.
https://www.cardiff.ac.uk/medicine
https://www.cardiff.ac.uk/people/view/78789-humphreys-ian